**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

29 Tachwedd 2023

Annwyl Peredur,

Gofynnodd y Pwyllgor imi a fyddai'n ofynnol cael deddfwriaeth sylfaenol er mwyn newid swm y grant cynnal refeniw ar gyfer awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn.

Nodir y brif sail statudol yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (Deddf 1988) (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003). Mae Deddf 1988 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gan nodi cyfanswm y grant cynnal refeniw am y flwyddyn honno ar gyfer yr awdurdodau sy'n derbyn a'r cyrff penodedig, a swm y grant y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei dalu i bob derbynnydd. Dyma sydd i'w cael yn yr Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi sut y bydd ardrethi annomestig yn cael eu dosbarthu i'r cynghorau. Rhaid i'r adroddiad gael ei gymeradwyo gan y Senedd bob blwyddyn. Mae'r adroddiad ar gyfer 2023-2024 i'w weld yma: Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol 2023-24 (llyw.cymru)

Er nad oes unrhyw beth yn y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n gwahardd Gweinidogion Cymru yn benodol rhag gwneud Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol diwygiedig i leihau'r grant cynnal refeniw yn gyffredinol, nid yw Deddf 1988 yn cynnwys darpariaeth sy'n caniatáu iddynt wneud hynny ychwaith. Pe bai'r ddeddfwrfa yn bwriadu caniatáu i Weinidogion Cymru wneud diwygiadau o'r fath, gellid dadlau y byddai wedi cynnwys darpariaethau penodol – tebyg i adran 86A sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru dalu grant ychwanegol wedi i'r Senedd gymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol – yn Neddf 1988. Pe bai'r Gweinidogion, er gwaethaf hynny, yn benderfynol o gyhoeddi Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol diwygiedig, byddai angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar ail Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol a byddai angen i'r Senedd bleidleisio dros ei ddiwygio.

Mewn perthynas â'r uchod, trafodwyd hefyd yn y Pwyllgor a allai'r awdurdodau lleol osod treth gyngor atodol neu uwch. Nid oes darpariaeth ddeddfwriaethol sy'n galluogi'r awdurdodau sy'n derbyn i ail-filio talwyr y dreth gyngor am swm uwch o ganlyniad i ail-gyfrifo gofynion y gyllideb yn dilyn ad-daliad o'r grant cynnal refeniw.

Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i newid y trefniadau hyn.

Yn gywir

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.